# Cofnodion a gadarnhawyd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus**<br>**Roedd Pawb yn Bresennol dros Teams** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20 Mai 2021 |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:** | Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd<br>Catherine Brown<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Howard Davies<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson<br>Dr Rosie Plummer<br>Yr Athro Peter Rigby |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol |
| **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** | Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau)<br>Mike Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru Eitem 8<br>Aneurin Cox, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau Eitem 8<br>Andy Robinson, Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd Canol De Cymru Eitem 8<br>Tim England, Rheolwr Gweithrediadau (Rheoli Dŵr a Llifogydd) Eitem 8<br>Scott Squires, Rheolwr Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni Eitem 8<br>Fiona Abbott, Arweinydd Tîm, Polisi Ymbelydredd a Diwydiant Eitem 8 |
| **Arsylwyr:** | Sue Nolan, Cynorthwyydd Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru Eitem 8<br>Mark Petherick, Arweinydd Tîm a Chynorthwyydd Gweithredol y Prif Weithredwr<br>Gareth Wardell<br>Huw Thomas – 9.30 tan 11.30 |
| **Datganiadau:** | Dr Rosie Plummer – Aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; Aelod o Gymdeithas Melinau Cymru |

| | |
|---|---|
| | Howard Davies – Prif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| **Ymddiheuriadau:** | Karen Balmer |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Natalie Williams<br>Jocelyn Benger<br>Rhiannon Spencer |

## Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant yn ystod y cyfarfod, fel y nodir uchod.

## Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

## 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 24 Mawrth

2. Adolygwyd cofnodion cyfarfod cyhoeddus mis Mawrth, a chytunwyd arnynt yn amodol ar wneud mân ddiwygiadau.

## 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd a chytunwyd ar y cofnod gweithredu, a darparwyd diweddariadau.

## Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Myfyriodd y Cadeirydd ar yr etholiadau diweddar a'r newid i bortffolios y gweinidogion, a chroesawodd y pwyslais a roddid ar yr hinsawdd a'r amgylchedd gan y Prif Weinidog a Llywodraeth newydd Cymru. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at y ddau Weinidog Newid Hinsawdd newydd, a byddai Leslie Griffiths yn parhau gyda'r gwaith ar Faterion Gwledig. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidogion newydd ar ran y Grŵp Adferiad Gwyrdd.

5. Bu'r broses recriwtio ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd yn ymgyrch lwyddiannus, gyda mwy na 130 o geisiadau wedi dod i law, ac roedd y cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer y mis canlynol.

6. Roedd y rhaglen *Panorama* ddiweddar ar y BBC ynghylch llygredd mewn afonydd wedi cael ei hystyried mewn cyfarfodydd mewnol. Cynigiwyd y dylai uwch-gynhadledd dŵr gael ei chynnal, i gynnwys Ofwat, y cwmnïau dŵr a LlC, a hynny i ystyried y materion a godwyd. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

## Eitem 4: Adroddiad y Prif Weithredwr

7. Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg o ganlyniadau etholiadau diweddar LlC, a chyflwynwyd y canlyniadau a oedd yn berthnasol i CNC. Byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ysgrifennu at Vaughan Gething ynghylch yr Adferiad Gwyrdd a Chyfiawn, ac yn gweithio i barhau â pherthnasoedd yn y maes hwn. Trafodwyd y Weinyddiaeth Newid Hinsawdd newydd a oedd wedi cael ei chreu. Byddai Leslie Griffiths yn parhau i arwain eitemau hanfodol ar gyfer CNC a'r sector ffermio.

8. Rhannwyd maniffesto'r Blaid Lafur. Disgwylid gweld deddfwriaeth bwysig, megis y Ddeddf Aer Glân, gwaharddiad ar ddefnyddio plastigion untro, a'r Bil Amaethyddiaeth. Roeddid yn ystyried creu Parc Cenedlaethol newydd, a nodwyd y byddai hyn yn golygu gwaith sylweddol i CNC. Byddai'r dynodiad hwn yn cael ei groesawu, ond byddai angen i gyflwr cynefinoedd barhau i fod yn ffocws y gwaith.

9. Croesawyd lefel yr uchelgais a'r dyhead i wneud gwahaniaeth, a'r bwriad oedd cysylltu â'r Gweinidogion yn fuan. Byddai cyllid yn allweddol ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau. Byddai'r Rhaglen Lywodraethu yn cael ei chyhoeddi ddechrau mis Mehefin, a byddai gwaith yn cael ei wneud i gysoni'r Cynllun Busnes â chynlluniau LlC. Byddai'r broses ymgysylltu yn parhau yn ystod y mis nesaf, ac roedd dyddiad wedi'i glustnodi ym mis Hydref i gynnal digwyddiad yn y Senedd i gyd-fynd â Chynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP) a gwaith Gweledigaeth 2050.

10. Nodwyd mai'r Bil Amaethyddiaeth ac ansawdd dŵr a fyddai'r meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nodwyd bod yr Hinsawdd ac Argyfyngau Naturiol yn gysylltiedig, a rhoddwyd pwyslais ar eu hystyried ar y cyd yn rhan o'r un mater. Byddai angen gosod targedau a chyflawni'r cynllun gweithredu iawn ar gyfer Adferiad Naturiol, gyda sylfaen dystiolaeth dda yn cael ei darparu gan SoNaRR.

11. Bu llifogydd yn fater pwysig yn ystod yr etholiad. Yn 2020-21, roedd y gyllideb gyfan ar gyfer rheoli perygl llifogydd wedi cael ei gwario, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol a gafwyd i amddiffyn 720 o gartrefi ychwanegol. Byddai cyllid refeniw ychwanegol o £1.25 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, a hynny ar gyfer llifogydd, ynghyd â chronfa gyfalaf o £17 miliwn gan LlC, yn galluogi'r gwaith o baratoi ac adeiladu prosiectau ledled Cymru i symud yn ei flaen o ran mynd i'r afael â'r deg maes allweddol a nodid yn yr Adolygiad o Lifogydd. Roedd angen trafod yr argymhellion clir o'r Adolygiad o Lifogydd â Gweinidogion, a gosod cyfeiriad y sgwrs â'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd er mwyn meithrin cydnerthedd.

12. Croesawyd yr ymrwymiad i greu Coedwig Genedlaethol newydd a gwella coetiroedd, ac roedd y tîm Rheoliadau wedi cael ei gyfnerthu i ddelio â'r cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau Glastir. Byddid yn parhau i dynnu sylw LlC at bwysigrwydd buddsoddi mewn adfer mawndir a charbon glas yn ddulliau o ddal carbon, yn ychwanegol at goed. Nodwyd y pwysau ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru am ei fuddion lluosog, sy'n amrywio o adloniant i'r economi sylfaen a heriau'n ymwneud â'r cydbwysedd yn y dyfodol.

13. Trafododd aelodau'r Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr. Cadarnhawyd y byddai gwaith ar y Cynllun Busnes yn mynd rhagddo cyn gynted ag y deuai'r Rhaglen Lywodraethu a'r Llythyr Cylch Gwaith i law, ac y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu ym mis Medi. Er ei bod yn debygol y byddai'r cyllid yn cael ei gadarnhau yn ddiweddarach, nodwyd y byddai blaenoriaethu'r camau gweithredu yn allweddol.

14. Nodwyd y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth, a phwysleisiwyd pwysigrwydd gwaith trawsffiniol. Cwestiynwyd rôl CNC yn y gwaith o greu Parc Cenedlaethol newydd. Eglurwyd bod CNC yn gweithredu fel prif gynghorydd i LlC ynghylch Parciau Cenedlaethol, ac ystyrid y byddai hyn yn darparu cyfle i ysgogi trafodaeth ar adferiad a chyflwr cynefinoedd. Byddai'r diffyg adnoddau i gynnal y gwaith o ddatblygu Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei godi gyda LlC.

15. Nodwyd y gallai'r broses arfaethedig o ddynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer adloniant, ynghyd â'r gwrthdaro posibl o ran adnoddau morol adnewyddadwy, achosi problemau

mewn perthynas ag ansawdd cynefinoedd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law hyd hynny am raddfa'r dynodiad. Byddai ansawdd dŵr yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, a chadarnhawyd bod trafodaethau wedi dechrau â LlC ynghylch polisi dŵr.

16. Cydnabuwyd ffocws y Llywodraeth ar gyflawni, a'i hymrwymiad yn hynny o beth, ynghyd â'r goblygiadau ar gyfer CNC a Chyrff Anllywodraethol. Trafodwyd yr anawsterau yr oedd rhai sefydliadau yn eu hwynebu wrth gyflwyno ceisiadau cyllido, a nodwyd yr adroddiad ar argymhellion ar gyfer gwella'r broses, a luniwyd gan y Grŵp Adferiad Gwyrdd. Cydnabuwyd bod cymorth cydweithredol yn allweddol wrth weithio i gefnogi'r broses o gyflawni mewn modd llwyddiannus.

17. Trafodwyd meysydd dyblygu swyddogaethau posibl, a chytunwyd y dylai hyn gael ei ystyried ymhellach ac y byddai canlyniad yr Adolygiad Sylfaenol yn hwyluso'r drafodaeth hon.

## Eitem 5: Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau

18. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC), a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2021, a chroesawodd Cadeirydd ARAC unrhyw gwestiynau neu sylwadau. Trafodwyd yr Adroddiad Archwilio ar archwilio a rheoli tomennydd gwastraff pyllau glo, a chytunwyd y dylai'r adroddiad hwn gael ei rannu â'r Bwrdd llawn er gwybodaeth. Cwestiynwyd perfformiad a phroses fonitro'r rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth, ynghyd â'i chysylltiadau â'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod rhaglen newydd ar y gweill a gefnogid gan Academi Cymru, a fyddai'n cael ei hategu gan ddysgu mewn grŵp ac yn adeiladu ar ddiwylliant o gydymffurfedd ac atebolrwydd. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yn darparu crynodeb o hyn i aelodau'r Bwrdd, ac yn nodi'r modd yr oedd yn cyd-fynd â'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a datblygu'r broses staffio.

**CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr i rannu'r adroddiad Archwilio i ARAC ar archwilio a rheoli tomennydd gwastraff pyllau glo â'r Bwrdd.**

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i ddarparu crynodeb i aelodau'r Bwrdd o'r rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth a'r modd yr oedd yn cyd-fynd â'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a datblygu'r broses staffio.**

19. Derbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 a 29 Ebrill. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar y cylch gorchwyl i gynnwys y ddau Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ond y byddai Pren yn cael ei adolygu'n barhaus ac y byddid yn gofyn am nodyn ffurfiol ar sicrwydd. Diolchodd Catherine Brown i'r Pwyllgor Cyllid a'r Tîm Cyllid, a nododd y cynnydd a wnaed o ran gwariant a rhagolygon, gan ofyn am wybodaeth am gynlluniau a oedd yn ymwneud â'r maes gwerth am arian. Cadarnhawyd y byddai hyn yn dod yn rhan greiddiol o'r Cylch Gorchwyl, ac y byddai'r Adolygiad Sylfaenol a'r gwaith ar y Tair Llinell Amddiffyn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gwmpasu.

20. Derbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2021. Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y ffaith y byddai'r Rhaglen Gweithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd yn destun archwiliad mewnol yn ystod Chwarter 2. Cadarnhawyd mai'r gyllideb derfynol a wariwyd ar y Rhaglen Gyfalaf Llifogydd oedd £13.5 miliwn. Roedd caniatâd cynllunio wedi dod i law yn ddiweddar ar gyfer cynllun llifogydd Llyn Tegid. Roedd Adroddiad Toddbrook wedi cael ei gyhoeddi, a oedd yn cynnwys 15 o brif argymhellion ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

Byddai'r Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad erbyn mis Medi, ac yn cynnwys rhywfaint o'r argymhellion yn adroddiad chwemisol CNC ar ddiogelwch cronfeydd dŵr.

## Eitem 6: Adolygiad Blynyddol o'r Cylchoedd Gorchwyl

Colette Fletcher, Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

21. Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yr eitem, a nododd mai mân newidiadau a oedd wedi'u cynnig ar gyfer y flwyddyn honno yn dilyn adolygiad sylweddol o'r Cylchoedd Gorchwyl y flwyddyn flaenorol. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at newidiadau'n ymwneud â'r geiriad mewn perthynas â Rheoli Adnoddau Naturiol mewn modd Cynaliadwy, y gofynion o ran cworwm ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd, a seiberddiogelwch.

22. Croesawodd aelodau'r Bwrdd yr ymagwedd broffesiynol at lywodraethu'r Bwrdd, gan gydnabod y cynnydd a wnaed yn y maes hwn. Trafodwyd y newid i'r geiriad mewn perthynas â Rheoli Adnoddau Naturiol mewn modd Cynaliadwy yng Nghylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd, a chytunwyd y dylid addasu hyn rhywfaint i sicrhau eglurder ychwanegol gan barhau o fewn y fframwaith cyfreithiol ar yr un pryd. Byddai hefyd angen diweddaru'r Cylchoedd Gorchwyl i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i drefn gweinidogion LlC.

**WEDI'I GYMERADWYO: Cymeradwywyd y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol, yn amodol ar wneud mân ddiwygiadau.**

## Eitem 7: Newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Statudol a Chyfreithiol

Colette Fletcher, Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

23. Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd y papur, ac amlygodd y newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol i ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo ymatebion i ymgyngoriadau yn seiliedig ar ddull tair lefel o risg.

24. Ystyriodd y Bwrdd y newidiadau, a'u cymeradwyo.

**WEDI'I GYMERADWYO: Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Statudol a Chyfreithiol y gofynnwyd amdanynt gan y Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol**

## Eitem 8. Cyflwyniad Lleoedd

Cyflwynwyr: Mike Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru
Aneurin Cox, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau, Andy Robinson, Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd Canol De Cymru, Tim England, Rheolwr Gweithrediadau (Rheoli Dŵr a Llifogydd), Scott Squires, Rheolwr Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni, Fiona Abbott, Arweinydd Tîm, Polisi Ymbelydredd a Diwydiant

25. Estynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau groeso i Dîm Canol De Cymru a'u cyflwyno, gan bwysleisio natur unigryw ac amrywiaeth yr ardal. Agorodd Pennaeth Canol De Cymru y cyflwyniad trwy nodi bod cangen Canol De Cymru yn corffori 29% o boblogaeth Cymru er mai dim ond 6% o'i harwynebedd yr oedd yn ei gwmpasu. Roedd y Datganiad Ardal yn canolbwyntio ar godi pont rhwng yr amgylchedd trefol a'r amgylchedd naturiol, ond tynnwyd sylw at bwysau o du llifogydd a'r boblogaeth, a heriwyd y ffocws

gan LlC ar yr agenda twf gan greu dadl i symud y trafodaethau tuag at flaenoriaethu'r amgylchedd.

26. Cyflwynodd aelodau'r tîm drosolwg o'r materion a'r heriau yn yr ardal hon. Roedd y pynciau'n cynnwys: rheoli perygl llifogydd a phrosiectau mewn ardaloedd poblog iawn, a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd a disgwyliadau gwleidyddol; rheoli tir ac asedau, yn arbennig mewn perthynas â choetiroedd, ac ymgysylltu â chymdogion, boed hynny mewn modd cadarnhaol neu negyddol; yr her o reoli a chynnal ansawdd dŵr mewn ardaloedd diwydiannol poblog iawn; gweithio gyda phartneriaid i gysylltu pobl â lleoedd a chreu amgylchedd iach a chydnerth.

27. Diolchodd aelodau'r Bwrdd i'r tîm am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch rhai o'r materion allweddol a oedd yn ymwneud â llifogydd a datblygu tir. Cydnabuwyd y byddai'n rhaid cynnal sgyrsiau anodd â chymunedau a phartneriaid gwleidyddol ynghylch meithrin cydnerthedd ac ymgysylltu â chanlyniad yr Adroddiad ar Lifogydd. Cytunwyd y dylid cynnwys archwaeth y Bwrdd am her o ran cynlluniau datblygu tir yn y dyfodol, i'w drafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i ychwanegu archwaeth y Bwrdd am her o ran cynlluniau datblygu tir yn y dyfodol at ragolwg y Bwrdd i'w drafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.**

28. Nodwyd y cyferbyniad rhwng effeithiau llygredd plastig mewn rhai afonydd ac adferiad yr ecosystem mewn afonydd eraill. Trafodwyd yr her o gyfathrebu llwyddiant cynlluniau mewn modd effeithiol er mwyn hybu newid. Ystyriwyd amrywiaeth y boblogaeth, a nodwyd pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid mewn perthynas ag addysg a meithrin perthnasoedd â chymunedau gwahanol. Roedd cyfathrebu, addysg ac ymgysylltiad effeithiol yn themâu allweddol a drafodwyd gan aelodau'r Bwrdd, a nodwyd y byddai angen ailedrych ar y gyllideb addysg, o bosibl. Ystyriwyd defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth, gan arfer amrywiaeth o ddulliau ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu.

29. Nodwyd bod y Cyflwyniadau Lleoedd wedi cynhyrchu themâu y gellid eu cymhwyso ledled y sefydliad, yn arbennig mewn perthynas ag addysg ac ymgysylltu â chymunedau. Cytunwyd y dylid gwneud ychydig o fyfyrio yn y Tîm Gweithrediadau, ac y dylid cyflwyno eitem mewn cyfarfod yn y dyfodol i'r Bwrdd gael ystyried y themâu a oedd yn datblygu o'r Cyflwyniadau Lleoedd.

**CAM GWEITHREDU: Y Tîm Gweithrediadau i gyflwyno eitem i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol i aelodau'r Bwrdd gael ystyried y themâu a oedd yn datblygu o'r Cyflwyniadau Lleoedd.**

## – Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -

## Eitem 10. Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

30. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.

31. Gwnaeth Gareth Wardell sylwadau ynghylch gallu cyfyngedig CNC i gyflawni'r targedau a osodid gan Lywodraeth Cymru heb fod y cyllid angenrheidiol ar gael. Nododd Mr Wardell hefyd ei farn na fyddai CNC yn gwneud cynnydd mewn perthynas ag Argyfyngau'r Hinsawdd a Natur hyd nes y byddai'r Llywodraeth yn cynyddu ei gweithgarwch i sicrhau

gostyngiad enfawr o ran defnyddio mewnbynnau carbon uchel yn achos nwyddau a gwasanaethau, yn arbennig trwy dargedu enillwyr incwm uchel.

**- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -**